Mynd i'r llys

Cyn i chi fynd i'r llys

Os ydych chi wedi bod yn trafod gyda masnachwr er mwyn ceisio datrys cwyn defnyddiwr ond heb lwyddiant, efallai yr hoffech chi ystyried mynd i'r llys.

Ystyriwch gymryd camau cyfreithiol dim ond os ydych chi wedi rhoi cynnig ar bob opsiwn arall i ddatrys eich anghydfod. Fe ddylai'r rhain gynnwys cynllun **Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR)**. Darperir y cynlluniau ADR gan gymdeithas fasnachol fel arfer. Maent yn defnyddio trydydd parti, megis cymodwr neu ombwdsmon i'ch helpu i roi cynnig ar ddatrys eich anghydfod. Os nad ydych wedi ymdrechu digon, gall y llys leihau eich iawndal, hyd yn oed os enillwch chi'r achos.

Bydd y llys yn disgwyl eich bod wedi ymdrechu o ddifri i ddod i gytundeb rhesymol gyda'r masnachwr, gan osgoi'r angen i fynd i'r llys, cyn cymryd camau cyfreithiol.

Bydd y llys yn disgwyl hefyd eich bod wedi ysgrifennu at y masnachwr cyn i chi fynd i'r llys (**llythyr cyn gweithredu**). Dylai'r llythyr roi manylion eich hawliad. Dylai ddweud y cymerir camau cyfreithiol os nad ydyw'r masnachwr yn ymateb o fewn cyfnod arbennig o amser.

Cyn i chi fynd i'r llys, fe ddylech chi hefyd wneud yn siŵr:

- eich bod yn gallu fforddio cymryd camau cyfreithiol; *a*
- eich bod o fewn y terfynau amser i gychwyn camau cyfreithiol ynglŷn â'ch achos arbennig chi; *a*
- fod y masnachwr yn gallu'ch talu os enillwch chi

Pa weithdrefn llys a ddefnyddir

Dechreuir pob achos ar yr un ffurflen hawlio. Bydd y mwyafrif o achosion yn cychwyn yn y llys sirol, oni bai fod eich hawliad chi am fwy na £25,000 (£50,000 mewn achos anaf personol), a'r pryd hwnnw gall gychwyn yn yr Uchel Lys. Fe allwch gael ffurflen hawlio am ddim oddi wrth eich llys lleol, neu o wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn www.justice.gov.uk.Os ydych chi'n hawlio swm penodol o arian, fe allwch wneud y cais ar-lein. Os ydyw'r masnachwr yn amddiffyn yr achos, bydd y barnwr yn penderfynu pa weithdrefn llys (**trac**) fydd y mwyaf priodol i'ch achos chi. Bydd y mwyafrif o achosion gwerth £5,000 neu lai yn cael eu dyrannu i'r trac hawliadau bychain, a'r llys sirol fydd yn delio â'r rhain. Er mwyn helpu'r barnwr i ddyrannu eich achos, anfonir **holiadur dyrannu** atoch. Bydd yr holiadur yn gofyn am wybodaeth arbennig megis a ydych am alw unrhyw **dystion** ai peidio a manylion am unrhyw **dystiolaeth arbenigol** yr ydych am ei ddefnyddio. Os ydyw'r masnachwr wedi anfon amddiffyniad yn erbyn eich cais, anfonir copi o'u hamddiffyniad atoch ac anfonir holiadur dyrannu at y masnachwr hefyd. Rhoddir dyddiad dychwelyd yr holiadur dyrannu i chi ac efallai y dywedir wrthych fod yn rhaid i chi dalu ffî ychwanegol. **Rhaid i chi ddychwelyd y ffurflen dyrannu wedi'i chwblhau erbyn y dyddiad penodedig neu fe wrthodir eich cais**. Fe gewch chi wedyn hysbysiad dyrannu, sy'n dweud wrthych i ba drac y dyrannwyd eich hawliad, ac os yw'ch achos i'w drosglwyddo i lys lleol y masnachwr.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Mae'r daflen ffeithiau hon yn delio ag achosion a ddyrennir i drac yr hawliadau bychain yn unig. Os ydyw'ch achos wedi'i ddyrannu i'r trac cyflym neu'r aml drac, fe ddylech gael cyngor cyfreithiol cyn mynd ymhellach, gan y gallai'r gost ynghlwm fod yn uchel.

Hysbysiad o ddyraniad

Bydd yr hysbysiad o ddyraniad fel arfer yn cynnwys:

- penderfyniad y llys os allwch chi ddefnyddio **arbenigwr** neu beidio, a faint o **dystion** y gallwch chi alw arnynt; *a*
- **cyfarwyddiadau safonol .** Rhoddir **dyddiad, amser** a **lleoliad** y gwrandawiad ar yr adeg hon fel arfer. Bydd y cyfarwyddiadau yn dweud wrthych hefyd beth i'w wneud nesaf. Rhaid i chi ddilyn y cyfarwyddiadau hyn. Os na wnewch chi, gall yr achos gael ei ohirio ac fe allech chi orfod talu holl gostau'r achos. Dywedir wrthych fel arfer i anfon at y diffynnydd (masnachwr) gopïau o'r holl ddogfennau yr ydych am eu defnyddio fel tystiolaeth a ffeilio copïau o'r holl bapurau hyn gyda'r llys. Dywedir wrthych am wneud hyn dim llai na 14 diwrnod cyn y gwrandawiad.

Gellir galw **gwrandawiad rhagbrofol** os yw'r barnwr am drafod materion gyda chi cyn y gwrandawiad llawn. Rhaid i chi fynychu'r gwrandawiad rhagbrofol neu adael i'r llys wybod fod y dyddiad yn anghyfleus a gofyn i'r barnwr am drefnu dyddiad arall. Efallai y bydd yn rhaid i dalu ffî am hyn os nad ydych chi wedi nodi ar yr holiadur dyrannu na fyddech ar gael ar y dyddiad hwn. Mae'n bosibl i'r barnwr ddod i benderfyniad yn y gwrandawiad rhagbrofol, Fe ddylech chi felly fynd ag unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig sydd gennych, ond ddylech chi ddim dod â'ch tystion i'r llys oni bai fod y barnwr wedi rhoi caniatâd i hynny.

Mewn rhai achosion gall y barnwr benderfynu nad oes angen gwrandawiad llawn, ac y gellir delio â'r cais ar dystiolaeth ysgrifenedig yn unig. Os ydyw'r barnwr yn penderfynu hyn yn eich achos chi anfonir ffurflen N159 atoch, Hysbysiad Dyraniad i Drac yr Hawliadau Bychain (Dim Gwrandawiad). Sut bynnag, os bydd y naill barti neu'r llall yn gwrthwynebu, bydd eich cais yn mynd ymlaen i wrandawiad llawn.

Rhaid i chi gadw at unrhyw derfynau amser a roddir i chi gan y llys neu gallai'ch achos gael ei wrthod (ei ddileu)

Y gwrandawiad

Rhoddir o leiaf **21 diwrnod o rybudd** i chi o ddyddiad y gwrandawiad oni bai eich bod chi a'r diffynnydd wedi cytuno i lai o rybudd. Rhaid eich bod wedi **cyflawni** holl **gyfarwyddiadau'r barnwr** cyn y gwrandawiad neu fe allai gael ei ohirio a gofyn i chi am dalu costau'r gwrandawiad a wastraffwyd. **Rhaid i chi fynychu'r** gwrandawiad neu fe allai eich achos gael ei wrthod (**ei ddileu**). Os na allwch chi fod yn bresennol, fe allwch ofyn am i'r achos gael ei ohirio neu i'r llys wrando'r achos yn eich absenoldeb. Rhaid i chi wneud hyn yn ysgrifenedig o leiaf 7 diwrnod cyn y gwrandawiad. Os na fyddwch chi'n mynychu, fe gollwch chi'ch cyfle i esbonio'ch achos yn bersonol, ac i holi'r diffynnydd, ac felly yn llai tebygol o ennill eich achos.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Mae'r mwyafrif o wrandawiad yr hawliadau bychain yn rhai cyhoeddus oni bai fod rhesymau da dros wrandawiad preifat. Fe allwch fynd a chynrychiolydd lleyg, megis ffrind, cydweithiwr neu weithiwr cynghori gyda chi i weithredu ar eich rhan, cyhyd â'ch bod chi hefyd yn mynychu'r gwrandawiad, ond bydd rhaid i chi dalu eu costau **hyd yn oed** os ydych chi'n llwyddiannus. Os nad ydych chi'n defnyddio ffrind neu berthynas, fe ddylech chi sicrhau fod y cynrychiolydd lleyg yn perthyn i sefydliad proffesiynol sy'n gwarantu ansawdd y cyngor ac sy'n gallu gwneud iawn os ydyw'r cyngor yn anghywir. Os bydd angen cyfieithydd arnoch, bydd rhaid i chi ddod o hyd i un eich hun. Os oes gennych anabledd, fe ddylech gysylltu ag Adran Gwasanaeth Cwsmeriaid y llys ymlaen llaw er mwyn sicrhau fod eich gofynion yn cael eu hateb. Os ydych chi'n fyddar neu os oes gennych nam ar y clyw, ffoniwch wasanaeth minicom y llys ar 0191 478 1476.

Bydd y gwrandawiad yn **anffurfiol** a bydd y barnwr yn penderfynu sut y cynhelir y gwrandawiad. Dim ond amser cyfyngedig iawn gewch chi i gyflwyno'ch achos a rhaid i chi fynd ag unrhyw ddogfennau gwreiddiol gyda chi. Fe ddylech chi sicrhau fod unrhyw dystion neu arbenigwyr ar gael ac yn **mynychu ar amser**. Os oes unrhyw oedi dianghenraid, megis eich tystion yn cyrraedd yn hwyr, efallai y gofynnir i chi am dalu costau'r diffynnydd.

Gorchymyn llys

Ar ddiwedd y gwrandawiad, bydd y barnwr yn rhoi'r dyfarniad (**gorchymyn llys**) a rhesymau dros y gorchymyn. Os ydych wedi bod yn llwyddiannus, fe ddylech ofyn am eich treuliau ar y pwynt hwn. Dylai'r rhain gynnwys taliadau i arbenigwyr, coll enillion, colli amser rhydd o'r gwaith a chostau teithio i chi a'ch tystion (gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd â phrawf o'r rhain gyda chi i'r llys) Os penderfynwyd ar yr achos heb wrandawiad, neu os rhoddoch chi neu'r amddiffynnydd rhybudd y byddech chi'n absennol, bydd y barnwr yn rhoi rhesymau ysgrifenedig dros y dyfarniad. Anfonir copi o hwn i chi a'r diffynnydd gyda'r gorchymyn. Bydd angen i chi ysgrifennu at y llys yn gofyn am eich costau cyn gynted ag y derbyniwch chi gopi o'r dyfarniad.

Gall y barnwr orchymyn:

- **talu iawndal,** naill ai fel cyfandaliad neu randaliadau
- **dychwelyd yr eiddo** neu **dalu'n ôl yr arian** sy'n ddyledus
- **nad oes taliad** i fod
- **perfformiad penodol,** sef gorchymyn i wneud i un parti gytuno i gyflawni eu rhan hwy o'r cytundeb

Caiff y **dyfarniad** ei **gofnodi** gan y llys ac yna gellir ei orfodi ar unwaith.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Y masnachwr ddim yn talu

Os nad yw'r masnachwr yn talu, fe allwch wneud cais i'r llys am ymchwiliad ar lafar. Caiff y masnachwr wedyn ei wysio i fynychu'r llys ac ateb cwestiynau am eu hamgylchiadau ariannol. Bydd rhaid i chi dalu ffî, ond bydd atebion y masnachwr yn eich helpu i benderfynu os ydyw'n werth cymryd camau pellach er mwyn gorfodi'r dyfarniad.

Gorfodi'r dyfarniad
Gallwch orfodi dyfarniad trwy:

- cael **gwarant i weithredu** yn erbyn nwyddau'r masnachwr. Mae hyn yn golygu defnyddio beilïaid i atafaelu nwyddau'r masnachwr, ac yna eu gwerthu; *neu*
- gwneud cais am **orchymyn atafael cyflog**, os ydyw'r masnachwr yn weithiwr cyflogedig. Bydd y llys yn gorchymyn cyflogwr y masnachwr i ddidynnu o gyflog y masnachwr; *neu*
- gwneud cais am **orchymyn dyled trydydd parti** er mwyn cael arian o gyfrif banc y masnachwr neu oddi wrth rywun arall yr ydych yn ymwybodol fod arnynt arian i'r masnachwr**;** *neu*
- cael **gorchymyn talu** ar gartref y masnachwr er mwyn sicrhau y cewch chi'ch arian pan werthir y tŷ; *neu*
- ymuno â chwsmeriaid eraill er mwyn gorfodi'r masnachwr i **ddatodiad neu fethdaliad**.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Prynu nwyddau – eich hawliau
- Prynu gwasanaethau – eich hawliau
- Dull amgen o ddatrys anghydfod
- Dechrau achos llys
- Masnachwr yn mynd allan o fusnes

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.

Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 13 Gorffennaf 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr